

## DEWI SANT

### **Brawddeg agoriadol:**

Dechreuwn ein gwasanaeth gydag anogaeth Dewi Sant i bobl ei oes ac i ninnau heddiw:

*‘Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a’ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi.’*

### **Gweddiwn:**

Yng nghlyw ac yn ysbryd neges Dewi Sant, cynorthwya ni, ein Tad, i ddathlu ein gŵyl genedlaethol yn llawen ein hysbryd, yn gadarn ein ffydd ac yn barod i gyflawni’r pethau bychain sy’n bwysig yn dy olwg di, ac er mwyn dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

**Emyn 197:** *Molwn di, O Dduw ein tadau*

**Darlleniad:** Ecclesiasticus 44: 1–15

Mathew 5: 1–10

### **Llefarydd:**

Unwaith eto, daeth yn amser inni gofio a dathlu ein gŵyl genedlaethol. Y mae gan genhedloedd eraill Prydain eu dathliadau cenedlaethol, ond mae ein dathliad ni ynghlwm wrth berson arbennig iawn o’r enw Dewi Sant. Mae cofio Dewi yn ein tywys yn ôl dros y canrifoedd i’r chweched ganrif, ac oherwydd hynny, ychydig iawn o wybodaeth sydd gennym amdano mewn gwirionedd. Dywed un bardd amdano,

*Am ei dras y mae dryswch  
Na wŷyr y wlad lawr ei lwch.*

Pan mae gwybodaeth am berson enwog yn brin, y mae chwedlau yn tyfu o'i gwmpas sy'n sôn am ei ddoniau, ei rinweddau a'i gampau, ac yn y blaen. Dyma yn union a ddigwyddodd hefo Dewi Sant. Dros y canrifoedd, tyfodd nifer o chwedlau amdano, megis y chwedl amdano yn adfer golwg ei athro Paulinws a thro arall i'r ddaear yn Llanddewibrefi godi o dan ei draed er mwyn i bob un yn y dorf ei weld a'i glywed yn pregethu.

Ond heddiw fe arhoswn gyda chwedl arall sy'n sôn am ddoniau a rhinweddau Dewi Sant. Un diwrnod, daeth angel at Sant, brenin Ceredigion, a dweud wrtho y byddai ei wraig Non yn dod yn feichiog, ac yn cael mab. Drannoeth aeth Sant i hela ar lan afon Teifi, a llwyddodd i gael tri pheth byw, sef carw, nyth gwynyn a physgodyn, a rhoddodd ran o'r rhain yn rhodd i fynachlog gerllaw. Ymddangosodd yr angel i Sant unwaith eto, a dywedodd y byddai y tair rhodd yn arwyddo tair rhinwedd a fyddai'n perthyn i'w fab Dewi.

### **Llefarydd:**

Dechreuodd yr angel gyda'r carw gan ddweud y byddai Dewi yn brwydro fel carw yn erbyn drygioni. Yn y cyfnod hwnnw, credai'r bobl fod gan garw allu i ladd nadroedd gwenwynllyd, ac y byddent yn gwneud hynny drwy eu sathru yn gelain i'r ddaear. Mae'n ddiddorol sylwi fod y neidr yn y chwedl ac yn y Beibl yn cynrychioli drygioni a chasineb. Yn ôl Llyfr Genesis, prif nodwedd neidr yw ei chyfrwystra a'i gallu i hudo ac i rwydo i'w chrafangau.

Wel, onid yw gelynion ein ffydd heddiw yn gyfrwys? Nid oes erledigaeth fel y cyfryw, ond y mae hinsawdd faterol ac anghrediniol ein hoes yn rhwystr gwirioneddol i'n cenhadaeth Gristnogol. Wrth gwrs, mae 'na gyfnodau tywyll wedi digwydd cyn heddiw. Cyfnod felly oedd hi yn y chweched ganrif, ond yr hyn a wnaeth Dewi Sant a'i gyd-fynachod oedd troi'r argyfwng yn her ac yn gyfle newydd. Heriodd farbariaeth ei ddydd drwy bregethu'r Efengyl a sefydlu celloedd o gymdeithasau Cristnogol yn ein gwlad. Clywyd lawer gwaith mai'r ffordd orau i amddiffyn yw ymosod yn hytrach na rhoi ein pennau yn y tywod a gobeithio'r gorau. Nid hynny a wna'r carw mewn argyfwng, ac nid hynny a wnaeth Dewi Sant. Cododd oddi ar ei liniau ac ymroi i'r gwaith y'i galwyd iddo, ac ymroi i gyhoeddi'r Efengyl a brwydro dros yr hyn sy'n wir ac yn ddirchafedig. Onid yw hyn yn sbardun i ninnau hefyd?

### **Gweddïwn:**

*O Arglwydd Dduw ein tadau,*

*ein craig a'n tŵr wyt ti:*

*O gogonedda eto*

*dy enw ynom ni.*

Diolchwn iti, ein Tad, am bawb fu'n gyfryngau i ogoneddu dy enw, ac am y rhai fu'n oleuadau llachar yn hanes ein gwlad. Ni adewaist mohonom yn ddi-dyst i lawr ar hyd y canrifoedd, a heddiw rydym yn clodfori dy enw am dy weision yng nghyfnod cynnar ein cenedl. Mawrygwn dy enw am Ddewi Sant, ac am iddo ymgysegru i gyhoeddi'r Efengyl i'r werin mewn cyfnod anodd a llafurio'n ddiarbed i sefydlu celloedd Cristnogol ac eglwysi. Do, bendithiaist ein cenedl ag amrywiaeth fawr o bobl fu'n ffyddlon i'r gwirionedd yng Nghrist dy fab ac yn ymroddgar eu gwasanaeth i ti yn ein heglwysi. Diolchwn hefyd am y rhai fu'n

wasanaethgar i ti mewn gwahanol feysydd – ym myd masnach ac amaeth, ac eraill yn ymladd dros gyfiawnder cymdeithasol i'r tlawd a'r gorthrymedig. O Dduw ein Tad, ffynhonnell pob daioni a tharddiad pob rhinwedd a gras yn Iesu Grist, gwna i ni sylweddoli mai dyledwyr ydym i'n cyndadau a'n mamau, ac mai ein braint heddiw yw cadw'n ffyddlon i ti, ac i bopeth da a dyrchafedig sy'n perthyn i ni fel cenedl.

*Gwna ni yn deilwng, drwy dy ras,  
o ryddid teyrnas Iesu;  
y breintiau brynwyd gynt â gwaed,  
parhaed ein plant i'w caru.*

Uwchlaw pob dim, diolchwn am dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist, a'i aberth drud drosom ar Galfaria. Cadw'n golygon arno ef bob amser oherwydd ef yw ein tangnefedd ni ac unig obaith ein byd. Er mwyn ei enw. Amen.

**Emyn 811:** *Am bawb fu'n wrol dros y gwir*

**Llefarydd:**

Symudwn ymlaen at yr ail beth byw a welodd tad Dewi Sant, sef nifer fawr o wenyn yn casglu'r neithdar yn ddiwyd o flodyn i flodyn er mwyn gwneud mêl ohono. Dywedodd yr angel wrth Sant y byddai ei fab Dewi yn debyg i'r gwenyn o ran ymroddiad a dygnwch. Ac felly y bu. Dywed haneswyr wrthym i Dewi Sant a'i gyd-fynachod gyflawni gwaith mawr yn eu cyfnod. Nid oedd ganddynt gyfleusterau fel sydd gyda ni heddiw. Llwybrau garw a ffyrdd anwastad a chulion oedd yng Nghymru, a chyntefig iawn iawn oedd bywyd y bobl. Ond ni rwystrwyd Dewi i bregethu'r Efengyl a sefydlu celloedd o Gristnogion yn Ne Cymru. Yn

ddiweddarach, datblygodd y rhain yn ganolfannau pwysig ac yn eglwysi. Un o'r rhai hynny oedd y fynachlog yng Nglyn Rhosyn, ac yno y saif Eglwys Gadeiriol Tyddewi ar y man lle'r oedd y fynachlog. Heddiw y mae enw Dewi Sant yn cael ei gysylltu â nifer fawr o eglwysi yng Nghymru, Llydaw, Cernyw a de-orllewin Lloegr, ac y mae hyn yn dangos ei ddylanwad mawr ar fywyd crefyddol ei ddydd, ac i lawr ar hyd y canrifoedd. Yn ei gerdd i Dewi Sant, mae'r bardd Gwenallt yn rhoi darlun byw iawn ohono.

*Cariodd ei Eglwys i bobman  
 Fel corff, a hwnnw yn fywyd, ymennydd ac ewyllys  
 A wnâi bethau bach a mawr.  
 Daeth â'r Eglwys i'n cartrefi,  
 Rhoi'r Llestri Santaidd ar ford y gegin,  
 A chael bara o'r pantri a gwin sâl o'r seler,  
 A sefyll y tu ôl i'r bwrdd fel tramp  
 Rhag iddo guddio rhagom ryfeddod yr Aberth.  
 Ac wedi'r Cymun cawsom sgwrs wrth y tân,  
 A soniodd ef wrthym am Drefn naturiol Duw,  
 Y person, y teulu, y genedl a'r gymdeithas o genhedloedd,  
 A'r Groes yn ein cadw rhag troi un ohonynt yn dduw.  
 Dywedodd mai Duw a luniodd ein cenedl ni  
 I'w bwrpas Ef Ei Hun,  
 Ac y byddai ei thranc yn nam ar y Drefn honno.*

Ni allwn ddweud mwy – dim ond ymroi fel y gwna'r gwenyn a Dewi Sant gynt, a gwneud ein rhan yng ngwaith teyrnas Dduw yn Iesu Grist.

**Emyn 812:** *Bydd gyda ni, O Iesu da*

**Llefarydd:**

Y trydydd peth byw a welodd tad Dewi Sant ar ei daith ar lan afon Teifi oedd pysgodyn, a neges yr angel i Sant oedd y byddai ei fab Dewi ar ôl tyfu'n ŵr ifanc yn byw bywyd syml iawn. Yn ôl yr hanes, daeth Dewi yn Gristion ac ymgysegru ei hun i'r bywyd mynachaid. Byddai'r mynachod yn byw bywyd syml a hunanaberthol. Eu bwyd arferol oedd llysiau a dŵr, a gweithient yn eithriadol o galed yn trin y tir. Gweithient yn galed yn gorfforol er mwyn cael rhyddid llwyr i wasanaethu Duw drwy gysuro'r cleifion a helpu'r tlodion. Eu hunig ddiod oedd dŵr, a dyma pam y gelwir Dewi wrth yr enw Dewi Ddyfrwr.

O'r tri peth byw welodd tad Dewi Sant, yr un mwyaf allweddol yw'r pysgodyn oherwydd dyma oedd arwyddlun Cristnogion yr Eglwys Fore a Dewi Sant yn y chweched ganrif. Arwyddlun ydoedd yn bennaf i nodi mai Crist oedd ei Waredwr. Y gair Groeg am bysgodyn yw ICHTHUS, a'r hyn wnaeth Cristnogion y ganrif gyntaf oedd defnyddio'r pum llythyren yn y gair ICHTHUS i nodi pwyntiau sylfaenol eu ffydd am Iesu Grist, sef:

**I** am Iesus, sef Iesu y dyn,  
**CH** am Christos, sef Crist y Meseia,  
**TH** am Theos, sef Duw,  
**U** am Uios, sef Mab, ac  
**S** am Soter, sef Gwaredwr.

Credai Cristnogion y ganrif gyntaf fod Iesu'r dyn yn Feseia, yn Fab Duw ac yn Waredwr. Dyma oedd cred Dewi Sant yn y chweched ganrif a dyma yw'n cred ni heddiw ganrifoedd yn ddiweddarach. Credwn fod Iesu yn berson unigryw, a bod ein tynged fel unigolion, teuluoedd a chenedl a chenedloedd ein daear ynghlwm wrth yr unig un all ein gwaredu. Terfynwn gydag emyn John Roberts:

*O tyred i'n gwaredu, Iesu da,  
fel cynt y daethost ar dy newydd wedd,  
a'r drysau 'nghau, at rai dan ofnus bla,  
a'u cadarnhau â nerthol air dy hedd:  
llefara dy dangnefedd yma nawr  
a dangos inni greithiau d'aberth mawr.*

**Emyn 375:** *O tyred i'n gwaredu, Iesu da*

**Y Fendith:**

Wrth derfynu'r gwasanaeth hwn, gofynnwn iti gadarnhau ein herfyniadau dros ein cenedl. Gwna hi yn genedl a fydd yn dy garu ac yn dy addoli, fel y byddwn yn adlewyrchu dy gariad yn ein cymunedau ac fel teuluoedd. Er mwyn ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.